

2011 Rhif 13

**DEDDF Y GWASANAETH
IECHYD GWLADOL (CYMRU)
2006**

**Cyfarwyddiadau Cydwasanaethau
GIG Cymru 2011**

Gwnaed

17 Mawrth 2011

Yn dod i rym

1 Ebrill 2011

GAN FOD

A. Gweinidogion Cymru yn dymuno sicrhau darpariaeth effeithiol, effeithlon a darbodus o wasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol penodol (y cydwasanaethau) mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

B. Gweinidogion Cymru wedi sefydlu trefniadau (y trefniadau) sy'n darparu ar gyfer cyflenwi cydwasanaethau a'u cynllunio'n strategol a fframwaith llywodraethol sy'n darparu ar gyfer adrodd a monitro perfformiad y cydwasanaethau gan grŵp fydd yn cael ei alw'n Bwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (y Pwyllgor) ac ar gyfer atebolrwydd Cyfarwyddwr y Cydwasanaethau y cyfeirir ato yng nghyfarwyddyd 2 isod i Brif Weithredwr y GIG yng Nghymru a monitro ei berfformiad gan Gadeirydd y Pwyllgor.

C. Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG wedi cydlafurio dros y trefniadau gweithredol ar gyfer darparu'r cydwasanaethau ac wedi cytuno cydweithio i sicrhau bod y trefniadau'n cael eu cyflwyno ac yn gweithredu'n effeithiol drwy benderfyniad ar y cyd yn unol â'r polisi a'r strategaeth a argymhellir gan y Pwyllgor.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 12, 13, 19 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1) yn gwneud y cyfarwyddiadau a ganlyn:-

Enwi a chychwyn

1. Enw'r cyfarwyddiadau hyn yw Cyfarwyddiadau Cydwasanaethau GIG Cymru 2011 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2011.

Dehongli

2. Yn y cyfarwyddiadau hyn—

ystyr “y BILlau” (“*the LHBs*”) yw'r Byrddau Iechyd Lleol a sefydlwyd yn unol ag adran 11 o'r Ddeddf ac a restrir eu henwau yn Atodlen 2;

ystyr “cydwasanaethau” (“*shared services*”), onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall yw'r gwasanaethau a ddisgrifir yng ngholofn 2 o Atodlen 4 a gwasanaethau eraill a ddygwyd o fewn trefniadau'r cydwasanaethau yn dilyn adolygiad a wnaed yn unol â pharagraff 3(c) o'r cyfarwyddiadau hyn;

ystyr “Cyfarwyddwr y Cydwasanaethau” (“*the Director of Shared Services*”) yw Cyfarwyddwr sydd wedi ei benodi gan neu ar ran y BILlau a'r Ymddiriedolaethau i'r perwyl y bydd gan y Cyfarwyddwr yr awdurdod dirprwyedig am y swyddogaethau a nodir yn Atodlen 1;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006; ac

ystyr “yr Ymddiriedolaethau” (“*the Trusts*”) yw Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd yn unol ag adran 18 o'r Ddeddf a rhestrir eu henwau yn Atodlen 3.

Arfer swyddogaethau

3. Rhaid i'r BILlau a'r Ymddiriedolaethau arfer eu swyddogaethau fel a ganlyn—

- (a) fel eu bônt yn cydweithio â'i gilydd o ran darparu'r cydwasanaethau gan roi sylw i'r egwyddorion a nodir yn Atodlen 5;
- (b) fel bod, yn effeithiol o 1 Ebrill 2011, pob un o'r BILlau a'r Ymddiriedolaethau a bennir yng ngholofn 1 o Atodlen 4 yn darparu'r cydwasanaethau perthnasol i unrhyw un neu rai o'r BILlau a'r Ymddiriedolaethau sy'n gofyn amdanynt, ac at y dibenion hyn y cydwasanaethau perthnasol yw'r gwasanaethau a ddisgrifir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2 o Atodlen 4 mewn perthynas â'r BILlau neu'r Ymddiriedolaethau a bennir neu'r ddau, yn ôl yr achos;
- (c) fel eu bônt yn cymryd camau, ar ôl 1 Ebrill 2011, er mwyn—

- (i) ystyried dichonoldeb dod a gwasanaethau eraill o fewn y cydwasanaethau a'r mecanweithiau ar gyfer gwneud hyn,
 - (ii) adolygu pa wasanaethau eraill y gellid eu darparu fel rhan o'r trefniadau i'r perwyl eu bod yn sicrhau darpariaeth effeithiol, effeithlon a darbodus o wasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol er mwyn bod o gymorth i wasanaethau clinigol a ddarperir i'r cleifion hynny y mae gan bob un ohonynt gyfrifoldeb drostynt, ac
 - (iii) hwyluso'r gwaith o ddod â'r gwasanaethau hynny o fewn y trefniadau;
- (ch) fel nad oes taliadau yn cael eu gwneud, pa bryd bynnag fo hynny'n bosibl, rhwng y BILlau a'r Ymddiriedolaethau ar gyfer darparu'r cydwasanaethau a ddarperir yn unol ag is-baragraff (b) neu (c) ac mewn ffyrdd eraill, ar yr amod nad yw'n gwrthdaro â'r cyfarwyddiadau hyn, rhaid i'r cydwasanaethau gael eu darparu yn unol â'r polisi a'r strategaeth ar gyfer cydwasanaethau a argymhellir gan y Pwyllgor ac wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Cydymffurfio â rheolau sefydlog etc

4. Rhaid i'r BILlau a'r Ymddiriedolaethau, wrth gaffael y cydwasanaethau ac wrth eu darparu, gydymffurfio â'u priod Reolau Sefydlog, eu Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, eu gweithdrefnau a'u polisïau a'r gofynion statudol perthnasol gan gynnwys y rhai mewn perthynas â chaffael gwasanaethau.

Darpariaeth amgen o wasanaethau

5. Os nad yw BILl neu Ymddiriedolaeth yn gallu bodloni'r gofyn am ddarparu'r cydwasanaethau, ar unrhyw adeg, oherwydd diffyg gallu neu arbenigedd, rhaid i'r cyfryw BILl neu Ymddiriedolaeth gymryd camau priodol, drwy Gyfarwyddwr y Cydwasanaethau, i sicrhau darpariaeth o'r gwasanaethau hynny gan bersonau eraill.

Presenoldeb mewn cyfarfodydd etc

6. Rhaid i'r BILlau a'r Ymddiriedolaethau drefnu bod eu staff ar gael i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor fel y bo'n ofynnol, ac fel arall i weithredu mewn modd sy'n cynnal ei weithrediad effeithiol yn unol â'i Gylch Gorchwyl a'i Drefniadau Gweithredu.

Gwasanaethau gweinyddol a chymorth rheoli

7. Rhaid i'r BILlau a'r Ymddiriedolaethau ddarparu'r gwasanaethau gweinyddol a'r gwasanaethau chymorth rheoli a ganlyn i fod o gymorth i Gyfarwyddwr y Cydwasanaethau ac i'r perwyl eu bod yn gweithredu trefniadau'r cydwasanaethau yn effeithlon ac effeithiol:

- (a) darparu cyngor i Gyfarwyddwr y Cydwasanaethau, fel y bo'n ofynnol, mewn perthynas â'u priod Reolau Sefydlog, eu Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, eu polisiau a'u gweithdrefnau;
- (b) darparu, lle y bo'n ofynnol, le i weithio a gwasanaethau corfforaethol eraill i gefnogi staff cydwasanaethau a gyflogir ganddynt;
- (c) rhoi mynediad i unrhyw wybodaeth y mae ar Gyfarwyddwr y Cydwasanaethau angen rhesymol ei chael er mwyn iddo allu cyflawni swyddogaethau'r cydwasanaethau;
- (ch) rhoi unrhyw gymorth a gwybodaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n angenrheidiol yn ei farn er mwyn iddo, allu cyflawni ei swyddogaethau statudol;
- (d) rhoi cyfrif am arian a dderbyniwyd ac a wariwyd ar gydwasanaethau;
- (dd) gwneud y cyfryw dendrau, y cytundebau caffael neu gytundebau eraill a fo'n gymeradwy ac sy'n ofynnol i ddarparu cydwasanaethau yn unol â'u Rheolau Sefydlog, eu Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, eu gweithdrefnau a'u polisiau;
- (e) dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr y Cydwasanaethau i lofnodi'r cyfryw ddogfennau a chytundebau yn unol â'r cyfyngiadau a bennir yn Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y BILlau neu'r Ymddiriedolaethau sy'n mynd i fod yn bartïon i'r dogfennau a'r cytundebau hynny;
- (f) bod yn gorff sy'n penodi ac yn gyflogwr i'r holl staff yn eu priod sefydliadau sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf mewn perthynas â darparu'r cydwasanaethau;
- (ff) cydweithredu o ran unrhyw ofynion am wybodaeth a wneir i Gyfarwyddwr y Cydwasanaethau neu Weinidogion Cymru mewn perthynas â chyflenwi a pherfformiad y cydwasanaethau.

Adroddiadau Blynyddol

8. Rhaid i'r BILlau a'r Ymddiriedolaethau gynorthwyo Gyfarwyddwr y Cydwasanaethau wrth baratoi adroddiad blynyddol mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth o

gydwasanaethau o fewn y GIG yng Nghymru i'w
ystyried gan y Pwyllgor a'i gyflwyno i Weinidogion
Cymru.

Edwina Hart AC

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad 17 Mawrth 2011

ATODLEN 1

Swyddogaethau Cyfarwyddwr y Cydwasaethau

1. Paratoi Cynllun Busnes Cydwasaethau GIG Cymru yn flynyddol ac Adroddiad Blynyddol ar sail y polisiau a'r strategaeth a osodir gan y Pwyllgor.

2. Rheolaeth gyffredinol ar gyflawni'r amcanion a nodir yn y Cynllun Busnes drwy'r Uwch Dîm Rheoli a arweinir gan Gyfarwyddwr y Cydwasaethau;

3. Rheolaeth o ddydd i ddydd o'r staff sydd wedi eu cymryd ymlaen gan y BILLau a'r Ymddiriedolaethau perthnasol yn gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu a rheoli'r cydwasaethau;

4. ymgymryd â gwaith tendro cystadleuol fel sy'n ofynnol mewn perthynas â'r cydwasaethau neu wasanaethau newydd a all ddod yn rhan o'r cydwasaethau;

5. cyflawni unrhyw ddogfen gyfreithiol rwymol mewn perthynas â'r cydwasaethau ar ran y BILLau a'r Ymddiriedolaethau.

ATODLEN 2

Byrddau Iechyd Lleol

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf

Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda

Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys

ATODLEN 3

Ymddiriedolaethau'r GIG

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans
Cymru

ATODLEN 4

Cydwasaethau

(1)

*Byrddau Iechyd Lleol ac
Ymddiriedolaethau GIG*

Bwrdd Iechyd Lleol
Cwm Taf

Bwrdd Iechyd Lleol
Betsi Cadwaladr

Bwrdd Iechyd Lleol
Addysgu Powys

Ymddiriedolaeth GIG
Felindre

Bwrdd Iechyd Lleol
Hywel Dda

Bwrdd Iechyd Lleol
Prifysgol Abertawe Bro
Morgannwg

Byrddau Iechyd Lleol ac
Ymddiriedolaethau

(2)

*Disgrifiad o'r
cydwasaethau*

Ystadau Iechyd Cymru

Gwasanaethau Cyfreithiol
Iechyd Cymru a Chronfa Risg
Cymru

Gwasanaethau Contractiwr

Uned Gwasanaethau
Presgripsiynu

Gwasanaethau archwilio ac
ymgyngori Cyfalaf a PFI

Cyflenwadau Iechyd Cymru

Gwasanaethau o'r Caffael i'r
Talu gan gynnwys
Gwasanaethau Caffael a
Thalu Dyledion
Gwasanaethau Cyflogres a
Recriwtio
Gwasanaethau Archwilio
Mewnol

ATODLEN 5

Egwyddorion Cydwasanaethau

1. Dylai cydweithio sicrhau bod trefniadau'r cydwasanaethau'n darparu, yn gyffredinol, gwerth ychwanegol i'r GIG yng Nghymru mewn termau o ddefnyddio adnoddau yn y modd gorau posib ac osgoi dyblygu gwasanaethau.

2. Dylai cydweithio gael ei gynllunio i fod yn arloesol wrth ddarparu'r cydwasanaethau gyda manteision y gellir eu dangos.

3. Dylai cydweithio sicrhau defnydd ehangach a mwy cyson o dystiolaeth i gefnogi penderfyniadau effeithiol yn nhermau safoni prosesau, gwelliant yn y defnydd o dechnoleg, gwelliannau mewn arbedion maint a chaffael gwell.

4. Dylai cydweithio fod o gymorth i'r BILlau a'r Ymddiriedolaethau wrth weithio â'i gilydd yn fwy effeithiol mewn modd agored a thryloyw, er budd yr holl randdeiliaid.

5. Dylai cydweithio ganolbwyntio ar effeithlonrwydd cost, adolygu tystiolaeth am arferion da, cynllunio modelau o wasanaeth a chynhyrchu manyldeb gwasanaeth eglur; a

6. Dylai cydweithio hybu rhannu risgiau a manteision rhwng BILlau ag Ymddiriedolaethau ar sail ecwitiol.